



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG  
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
University NHS Trust

**YMDDIRIEDOLAETH  
BRIFYSGOL GIG GWASANAETHAU  
AMBIWLANS CYMRU**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL  
SAFONAU'R GYMRAEG  
2025-2026**

## Cynnwys

|                                                            |    |
|------------------------------------------------------------|----|
| 1. Cyflwyniad.....                                         | 5  |
| 2. Amdano'r Ymddiriedolaeth .....                          | 5  |
| 3. Cefndir Safonau'r Gymraeg (y 'Safonau') .....           | 6  |
| 4. Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022-27 .....         | 6  |
| 5. Atebolrwydd a chymorth.....                             | 6  |
| SAFONAU'R GYMRAEG .....                                    | 9  |
| 6. Safonau cyflenwi gwasanaethau (Safonau 1 – 77).....     | 10 |
| 7. Safonau llunio polisi (Safonau 69 – 77).....            | 32 |
| 8. Safonau gweithredu (Safonau 79 – 114) .....             | 33 |
| 9. Cwynion (Safon Cadw Cofnodion 115) .....                | 51 |
| 10. Edrych ymlaen - blaenoriaethau ar gyfer 2026-2027..... | 52 |

## Croeso!

**Fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ('WAST' / 'yr Ymddiriedolaeth'), rydym yn falch o gyflwyno ein seithfed adroddiad blynyddol ar weithredu Safonau'r Gymraeg.**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu'r fframwaith statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Y tu hwnt i gydymffurfio, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweld y Mesur fel cyfle i gryfhau ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau drwy'r Gymraeg. Mae cynnydd yn parhau drwy Fframwaith Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, yn unol â *Chynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022–2027*, gan gynnwys datblygu strategaeth recriwtio iaith Gymraeg.

Mae arweinyddiaeth gref gan y bwrdd yn sail i'r gwaith hwn, gyda llywodraethu clir, integreiddio strategol, a gorchwyliaeth o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Cynllun Pobl a Diwylliant, cynnig rhagweithiol yr Ymddiriedolaeth, ac Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg. Mae Safonau Darparu Gwasanaethau wedi gwella, wedi'u cefnogi gan gyflwyno gwasanaeth cyfieithu mewnol, gan wella cyflymder a chysondeb gohebiaeth a chyfathrebu dwyieithog. Mae gwelliant pellach wedi'i gynllunio ar gyfer gwasanaethau derbynfa fel pwynt mynediad allweddol i siaradwyr Cymraeg.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran Polisi a Safonau Gweithredu. Mae pob polisi'r Ymddiriedolaeth bellach yn cynnwys asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg, ac mae 97% o'r staff wedi cofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar y Cofnod Staff Electronig (ESR). Mae mynediad at wasanaethau Cymraeg yn parhau i gynyddu, gyda 62% o alwadau GIG 111 Cymru a gynigiwyd yn y Gymraeg yn cael eu hateb yn y Gymraeg. Bydd cynllun ymgynghori pum mlynedd yr Ymddiriedolaeth yn cael ei gyhoeddi yn unol â Safon 110 yn ystod chwarter 2 o 2026/27, gyda chefnogaeth gwaith partneriaeth a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Mae gallu staff wedi'i gryfhau drwy swyddogion ymchwilio sy'n siarad Cymraeg, adnoddau mewnrwyd estynedig, hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gorfodol (79% wedi'i gwblhau), a chwrs Cymraeg i ddechreuwyr newydd ar gyfer staff y Gwasanaeth Meddygol Brys. Rhoddodd archwiliad mewnol yn ystod y cyfnod adrodd

sicrwydd rhesymol o gydymffurfedd yr Ymddiriedolaeth â Safonau'r Gymraeg a nododd feysydd i'w gwella ymhellach.

Mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen at barhau i gefnogi'r Gymraeg, gan sicrhau o leiaf fod cwrteisi Cymraeg yn rhan o'i gyfarfodydd, a bod aelodau'r cyhoedd a staff sy'n dymuno cyfathrebu â'r Bwrdd yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny yn unol â'r cynnig rhagweithiol.



**Colin Dennis**  
Cadeirydd



**Emma Wood**  
Prif Swyddog Gweithredol

## 1. Cyflwyniad

Dyma'r seithfed Adroddiad Blynyddol sy'n dangos sut mae Safonau'r Gymraeg wedi cael eu gweithredu o fewn y sefydliad.

Ar 30 Mai 2019, symudodd yr Ymddiriedolaeth o weithredu ei Chynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i weithredu Safonau'r Gymraeg fel rhan o [Fesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#).

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg gan ei bod yn rhoi cyfle i atgyfnerthu a gwella ansawdd ac argaeledd ei gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 2. Amdano'r Ymddiriedolaeth

Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl ledled Cymru, gan ddarparu gofal clinigol o ansawdd uchel sy'n cael ei arwain gan gleifion 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae gwasanaethau'n cynnwys y canlynol:

- Gwasanaethau Meddygol Brys (EMS) 999: gan gynnwys ateb galwadau, ymgynghori clinigol o bell, gweld a thrin ac os oes angen, cludo i'r ysbyty neu gyfleuster trin priodol
- Y Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (a elwir hefyd yn Ofal Ambiwylans): gan gynnwys ateb galwadau, cynllunio teithiau, comisiynu gwasanaethau, cludo cleifion i apwyntiadau ysbyty ac oddi yno a'u trosglwyddo rhwng ysbytai a chyfleusterau trin
- Y gwasanaeth 111: gwefan a gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim, sy'n borth llinell gyntaf i daith glaf o fewn y system iechyd a gofal, gan roi'r cyngor neu'r atgyfeiriad iawn i'r claf
- Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cefnogi gwirfoddolwyr: Ymatebwr Cyntaf yn y Gymuned, Ymatebwyr Lles Cymunedol ac ymatebwyr mewn lifrai i ddarparu adnoddau ymateb ychwanegol ar gyfer galwadau brys a gwasanaeth ceir gwirfoddol i gynorthwyo â chludo cleifion i apwyntiadau wedi'u trefnu.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn wasanaeth a gomisiynwyd ar gyfer EMS, GIG 111 Cymru a Gofal Ambiwylans trwy Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Comisiynu yn gydbwyllgor o'r saith bwrdd iechyd.

### 3. Cefndir Safonau'r Gymraeg (y 'Safonau')

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith, sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau'n annog hybu'r Gymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol ac yn ei gwneud yn ofynnol bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer hygyrchedd y Gymraeg i'r cyhoedd.

Mae adran 44 o fesur 2011 yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg ddyroddi hysbysiad cydymffurfio sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu ragor o Safonau sy'n benodol gymwys iddo. Yna cyflwynwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 i sefydliadau'r sector iechyd yng Nghymru.

### 4. Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022-27

Ers lansio [Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022-27](#) Llywodraeth Cymru yn 2022, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i gyflawni'r camau hynny fel bod y 'cynnig rhagweithiol' yn rhan annatod o ansawdd gwasanaethau a chyflawni gwasanaethau ar draws yr Ymddiriedolaeth lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n darparu gwasanaethau gofal i bobl a'u teuluoedd ledled Cymru i ddarparu'r cynnig rhagweithiol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.

O fewn yr Ymddiriedolaeth, mae'r cysylltiad â'i gofynion o ran y Gymraeg yn allweddol, ac mae ei threfniadau llywodraethu diwygiedig yn adlewyrchu hynny. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n cefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac sy'n cyd-fynd â chynllun gweithredu Mwy na geiriau 2022-27, ac sy'n ychwanegol ato.

### 5. Atebolrwydd a chymorth

#### 5.1 Arweinwyr a Hyrwyddwyr y Gymraeg

Ochr yn ochr â Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, mae Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd yr

Ymddiriedolaeth, Trish Mills, yn gweithredu fel yr arweinydd gweithredol ar gyfer Gwasanaethau'r Gymraeg. Mae'r rôl hon yn darparu arweinyddiaeth a sicrwydd bod strwythurau cryf, llywodraethu a chysondeb ar waith i gefnogi datblygiad y Gymraeg ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cydymffurfedd â'r Safonau statudol a goruchwyllo cyflawniad camau gweithredu o fewn Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022–27. Mae Trish hefyd wedi chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo defnydd bob dydd o'r Gymraeg drwy agor cyfarfodydd a gohebiaeth yn ddwyieithog gan ddefnyddio Cymraeg sylfaenol.

Rachel Marsh, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad, yw arweinydd gweithredol rhwydwaith iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, *Rhwyd-iaith*. Yn rhinwedd y rôl hon, mae wedi arwain a chefnogi'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymraeg yn weithredol, gan gyfrannu at wreiddio'r Gymraeg ymhellach ym mhob rhan o'r sefydliad.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael ei gefnogi gan Gyfarwyddwr Anweithredol a Hyrwyddwr y Gymraeg, sef Bethan Evans. Mae Bethan wedi bod yn allweddol wrth hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol ymhlith staff ac yn allanol gyda defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yr Ymddiriedolaeth. Fel siaradwr Cymraeg rhugl, mae eiriolaeth, cefnogaeth a her adeiladol Bethan yn y maes hwn wedi bod yn hynod werthfawr.



**Trish Mills**

Cyfarwyddwr  
Llywodraethu  
Corfforaethol /  
Ysgrifennydd y  
Bwrdd



**Bethan Evans**

Cyfarwyddwr  
Anweithredol



**Rachel Marsh**

Cyfarwyddwr Gweithredol  
Strategaeth, Cynllunio a  
Pherfformiad

## 5.2 Grŵp Cyngori'r Gymraeg

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Grŵp Cyngori'r Gymraeg, sy'n adrodd i'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, i gryfhau'r aliniad â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Grŵp Llywio hwnnw'n adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Arwain Gweithredol ac mae'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Newid Diwylliant, Angie Lewis. Roedd hwn yn gam pwysig i wreiddio cydymffurfedd drwy newid y diwylliant a'r agweddau tuag at y Gymraeg. Mae polisi a fframwaith yr Ymddiriedolaeth wedi'u strwythuro fel hyn yn gyffredinol.

Mae Grŵp Cyngori'r Gymraeg hwn yn darparu mecanwaith ar gyfer adolygu agweddau ar y Safonau, ac i sicrhau bod gwasanaeth boddhaol yn cael ei gynnal i bob claf ac aelod o'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

Nododd yr archwiliad mewnol ar y Safonau yn 2025/26 feysydd i'w gwella yn ymwneud â chysondeb monitro a gwreiddio safonau ar draws gwasanaethau, effeithiolrwydd Grŵp Cyngori'r Gymraeg, a chofnodi cwynion am y Gymraeg.

Mewn ymateb, mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau trefniadau goruchwyllo a llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys adolygu cylch gorchwyl ac aelodaeth y grŵp cyngori fel rhan o newidiadau ehangach i drefniadau llywodraethu integredig, cyflwyno rhaglen gyfarfodydd fwy strwythuredig, a gwella lefelau presenoldeb ac atebolrwydd.

### 5.3 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Mae Pwyllgor Pobl a Diwylliant yr Ymddiriedolaeth yn rhoi sicrwydd i'r bwrdd o'i drefniadau arwain o ran y Gymraeg, ac yn monitro cynnydd ac yn ceisio sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Safonau.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol i'w gymeradwyo gan y Bwrdd ac mae ganddo oruchwyliaeth o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Gymraeg sy'n gysylltiedig â'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol (MIQPR – gan gynnwys y gwasanaeth GIG 111 Cymru a'r Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS) sy'n dod o dan bortffolio Gweithrediadau (Gofal Ambiwlans), ac o dan gynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae hefyd yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r newid diwylliannol sy'n cyd-fynd â'r cynnig rhagweithiol fel ffordd o gryfhau cydymffurfedd â'r Safonau.

## 5.4 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Cyfrifoldeb pennaf y bwrdd dros y Gymraeg yw adolygu a chymeradwyo'r adroddiad blynyddol a goruchwyllo dangosyddion perfformiad allweddol y Gymraeg sy'n gysylltiedig â'r MIQPR (GIG 111 Cymru a NEPTS), ac o dan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol trwy'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

## 5.5 Trefn gwyno

Mae nifer o lwybrau ar gael i gyflwyno pryderon ynghylch cydymffurfedd â'r Safonau, gan gynnwys cysylltu'n uniongyrchol â'r Prif Weithredwr neu Reolwr Gwasanaethau Cymraeg. Ymchwilir i bob cwyn a dderbynnir a darperir ymateb yn nodi unrhyw gamau unioni gofynnol. Rhoddir sylw i faterion sy'n ymwneud â diogelwch cleifion o dan y Rheoliadau Gwrando ar Bobl.

Os oes gan aelod o'r cyhoedd bryder ynghylch profiad diweddar o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yr Ymddiriedolaeth, gallant gofrestru eu pryder drwy anfon neges e-bost at y Tîm Gwrando ar Bobl: [amb\\_WASTListeningtopeople@wales.nhs.uk](mailto:amb_WASTListeningtopeople@wales.nhs.uk)

Nododd yr archwiliad mewnol o'r Safonau ar gyfer 2025/26 fod y trefniadau ar gyfer cofnodi cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn faes i'w wella. Mae gwaith ar y gweill i roi dull gweithredu cyson ar waith ar gyfer cofnodi ac adrodd ar bob cwyn sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar Datix, gan gynnwys y rhai a allai eisoes fod wedi'u datrys yn lleol, er mwyn sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth ddarlun cynhwysfawr o'r materion sy'n codi. Bydd yr wybodaeth hon yn cryfhau dysgu sefydliadol, yn gwella goruchwyliaeth, ac yn cefnogi sicrwydd parhaus o gydymffurfedd.

Mae manylion y cwynion a dderbyniwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2025/26 mewn perthynas â'r Gymraeg i'w gweld yn Adran 9.

## SAFONAU'R GYMRAEG

Caiff cydymffurfedd â'r Safonau ei gategoreiddio i'r meysydd cydymffurfio a ganlyn:

- Cyflenwi Gwasanaethau
- Llunio Polisi
- Gweithrediadau
- Cadw Cofnodion

Yn ystod 2025/26, cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth hunanasesiad Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg o'i chydymffurfedd â'r Safonau. Amlinellir isod y lefelau cydymffurfio sy'n deillio o hyn ar gyfer Safonau unigol, neu grwpiau o Safonau, ynghyd â meysydd arfaethedig ar gyfer gwella.

## 6. Safonau cyflenwi gwasanaethau (Safonau 1 – 77)

Mae'r set hon o safonau yn nodi sut y mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd fel y gall siaradwyr Cymraeg gael mynediad dirwysr at wasanaethau Cymraeg; er enghraifft, wrth anfon gohebiaeth, delio â galwadau ffôn, darparu gwasanaethau ar-lein neu wyneb yn wyneb.

### 6.1 Gohebiaeth (Safonau 1 – 7)

#### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd ganolig ar gyfer Safonau 1–6 (gohebu â'r cyhoedd yn Gymraeg) a Safon 7 (gan gynnwys datganiad sy'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn cadarnhau na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi).

Mae gwasanaeth Cyfieithu'r Ymddiriedolaeth a sefydlwyd ym mis Medi 2023 yn darparu cefnogaeth ar gyfer gohebiaeth yn y Gymraeg gyda'r cyhoedd. Yn dilyn adolygiad o'r gwaith cyfieithu a wnaed gan wasanaeth cyfieithu mewnol yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2025/26, darparwyd gohebiaeth yn Gymraeg ar gais yn y categorïau canlynol:

- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth;
- Gohebiaeth partneriaeth;
- Llythyrau Gwranddo ar Bobl;
- Gohebiaeth a gyhoeddwyd ar ran y Prif Weithredwr; a
- Gohebiaeth â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd Canllawiau Brand yr Ymddiriedolaeth eu diweddarau i gynnwys adran benodol ar y Gymraeg, gan ddarparu canllawiau ar ddefnyddio llofnodion e-bost dwyieithog a negeseuon y tu allan i'r swyddfa. Yna

postiwyd y canllawiau hyn ar fewnwyd yr Ymddiriedolaeth (Siren) a'u cysylltu â thudalen SharePoint y Safonau.

Yn ogystal, ym mis Ionawr 2026 adolygwyd a diweddarwyd yr holl bwyntiau mynediad cyhoeddus i wasanaethau a gyhoeddwyd ar wefan yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod yr opsiwn i gyfathrebu yn y Gymraeg yn glir.

**Email signatures and out of office messages**

Always use a bilingual auto-signature and out of office reply. This demonstrates that we are a bilingual organisation and that we actively encourage the use of Welsh.

All email signatures should clearly display that we accept correspondence in Welsh and English, as well as our corporate statement confirming that we offer a bilingual service and that corresponding in Welsh will not lead to a delay.

Your out of office message should also be bilingual.

For further advice and guidance, the Trust's Welsh Language Team can be contacted via: [amb\\_Cymraeg@wales.nhs.uk](mailto:amb_Cymraeg@wales.nhs.uk)

For Welsh language translation requests please refer to our [Welsh translation processes](#)

Defnyddia dy **Gymraeg**  
Use your **Welsh**

**Cymraeg**

A Welsh Language Hub Quick Guide is available on Siren within the Partnerships and Engagement Directorate.

[Access Now](#)

- 21 -

## Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Bydd hysbysiad gan y gyfarwyddiaeth i'r sefydliad ehangach yn atgoffa cydweithwyr o'r Safonau a'r gofynion cysylltiedig wrth eu gweithredu yn ymarferol, ac yn gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth o gydymffurfedd yn rhagweithiol i Reolwr Gwasanaethau'r Gymraeg er mwyn iddi gael ei chofnodi a'i defnyddio i lywio'r sicrwydd a roddir i'r Bwrdd.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhellach, hyrwyddo cydymffurfedd, a chael tystiolaeth i roi sicrwydd ychwanegol, bydd canllaw fideo byr yn helpu i hysbysu staff a gwirfoddolwyr.

Bwriedir cynnal ymarfer cwsmer cudd ar gyfer gwasanaethau dwyieithog yn ystod 2026/27 er mwyn darparu asesiad annibynnol a gwrthrychol o gydymffurfedd yr Ymddiriedolaeth â'r Safonau sy'n ymwneud â gohebiaeth. Bydd yr ymarfer yn cael ei

hwyluso gan Dîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd yr Ymddiriedolaeth, gan weithio gydag aelodau o'r Rhwydwaith Pobl a'r Gymuned.

Yn ogystal, bydd archwiliadau chwarterol a monitro parhaus yn cael eu cynnal gan Reolwr Gwasanaethau'r Gymraeg drwy gydol 2026/27 i sicrhau cydymffurfedd â Safon 7 a chanllawiau brand yr Ymddiriedolaeth.

## 6.2 Galwadau ffôn (Safonau 8 – 20)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd canolig ar gyfer Safonau perthnasol 8-20 (Gwasanaethau ffôn ar gael yn y Gymraeg); gan nodi nad yw'r Safonau'n gosod unrhyw ofyniad cyfreithiol i ateb galwadau 999 yn Gymraeg. O dan [Reoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018](#), Paragraff 35: Nid yw safonau 8 i 10, a 13 i 16, yn gymwys i alwadau a wneir i'r rhif ffôn 999.

Yn ystod 2025/26, datblygodd a gweithredodd yr Ymddiriedolaeth linell ffôn derbynfa bwrpasol, gyda phrif rifau gweinyddol a derbynfa'r Ymddiriedolaeth wedi'u rhestru isod yn cael eu cyfeirio trwy blatfform Finesse. Mae hyn yn sicrhau bod galwyr yn cael cynnig dewislen ddwyieithog ar y pwynt cyswllt cyntaf:

- Tŷ Vantage Point, Cwmbrân: 01633 62 62 62
- Matrix, Abertawe: 01792 562 900
- Tŷ Elwy, Llanelwy 01745 532 900
- Gweinyddiaeth 111: 01792 776 252
- Tŷ Merton, Caerdydd: 02921 707 700

Yn ogystal, ar gyfer staff sy'n ateb galwadau ffôn mewn derbynfeydd a lleoliadau eraill (ac eithrio GIG 111 Cymru a NEPTS), mae cardiau desg "Sut i Ateb y Ffôn" yn cynnwys geirfa safonol wedi'u datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys ymadroddion Cymraeg syml i gefnogi cyfarch galwyr a thrin galwadau'n ddwyieithog, gan helpu i gynnal cydymffurfedd â Safonau 17 a 18. Cafodd y cardiau geirfa desg eu hyrwyddo a'u dosbarthu i staff yn Sioeau Teithiol y Prif Weithredwyr a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Hydref 2025.



Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG  
Gwasanaethau Ambwlans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
University NHS Trust

## Sut i ateb y ffôn - Rhowch dro ar ychydig o Gymraeg

### How to answer the phone - Give a bit of Welsh a go

#### Manylion cyswllt Tîm y Gymraeg WAST

Os hoffech fwy o wybodaeth am y Gymraeg yn WAST neu os oes gennych gwestiwn, cysylltwch â Thîm y Gymraeg ar:  
amb\_Cymraeg@wales.nhs.uk

**Bore Da / P'nawn da / Shwmae / Su'mae**  
Good morning / Good afternoon / Hello  
Bo-reh dah / P-noun dah / Shoo-my / S'm aye

**Ga i helpu? Can I help you? Guy help-ee?**  
**Diolch** Thank you dee-olch  
**Croeso** You're welcome croy-soh  
**Os gwelwch yn dda** Please oss-gwell-ooch-un-tha  
**Hwyl** Goodbye hoyl

**Dw i'n deall dipyn bach o Gymraeg**  
I understand a little bit of Welsh  
Do een day-a 'll' dip-in Bach o Gum-rah-eeg  
(Bach - as in the composer)  
(Li - as in 'Llangollen')

**Daliwch y lein plis**  
Hold the line please?  
Dally-ooch Elaine please

**Na i'ch trosglwyddo chi**  
I'll transfer you  
Nigh 'ch tros-glue-though chee



Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG  
Gwasanaethau Ambwlans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
University NHS Trust

## If you don't speak Welsh

**Bore Da / P'nawn da / Shwmae / Su'mae**  
Good morning / Good afternoon / Hello  
Bo-reh dah / P-noun dah / Shoo-my / S'm aye

**I'm sorry, I don't speak Welsh.**  
**Would you like to speak to a Welsh-speaker?**  
[transfer to colleague]  
**Can we get a Welsh-speaker to call you back?**  
[take caller's details and arrange for colleague to call back]  
**Or would you like to continue in English?**

**Eisiau datblygu eich sgiliau Cymraeg? Ewch i Hwb yr Iaith Gymraeg am y cyfleoedd diweddaraf**

**Want to learn some Welsh? Visit the Welsh Language Hwb for the latest opportunities**

#### WAST Welsh Language Team contact details

For further information about the Welsh language at WAST or if you have a question, contact the Welsh Language Team at:  
amb\_Cymraeg@wales.nhs.uk

Mae llinellau ffôn Gwasanaeth GIG 111 Cymru, NEPTS, a'r Tîm Gwrando ar Bobl (Gweithio i Wella yn gynt) i gyd yn gweithredu'n ddwyieithog. Mae galwyr i GIG 111 Cymru a NEPTS yn cael eu cyfarch â neges ddwyieithog wedi'i recordio, ac yna opsiwn i ddewis eu hiaith, naill ai Gymraeg neu Saesneg. Mae llinell ffôn dwyieithog ar gael i ganslo teithiau NEPTS ar 0300 1311 1390. Mae llinell ffôn Gwrando ar Bobl ar 0300 321 3211 hefyd yn ddwyieithog, ac mae galwyr yn gallu gadael neges ar y llinell honno hefyd. Mae ateb galwadau yn y Gymraeg o fewn Gwasanaeth 111 GIG Cymru yn cael ei fonitro a'i adrodd drwy'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol (MIQPR) i'r bwrdd. Mae data perfformiad ar gyfer ateb galwadau GIG 111 Cymru a NEPTS yn cael eu harchwilio'n fanylach yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn.

Mae rhifau ffôn y gwasanaethau a restrir ar wefan yr Ymddiriedolaeth wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau i sicrhau bod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cyfateb.

## Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Er mwyn cryfhau cydymffurfedd, monitro a goruchwyliaeth ymhellach, mae'r Ymddiriedolaeth yn archwilio posibilrwydd cofnodi dewisiadau galwyr ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg o fewn sgript trin -galwadau Cisco yn ystod 2026/27. Bydd hyn yn cefnogi dadansoddiad gwell o'r galw am y Gymraeg, yn gwella monitro gweithgaredd galwadau, ac yn helpu i nodi cyfleoedd i gryfhau cydymffurfedd a darpariaeth gwasanaeth.

Mae cronfa o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael ei sefydlu er mwyn cefnogi adrannau eraill pan fo angen, yn enwedig ar gyfer galwadau ffôn byr lle nad oes angen cyfieithydd ar y pryd.

Er mwyn darparu sicrwydd, mae Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yn bwriadu cynnal archwiliad o system teleffoni'r Ymddiriedolaeth ( ac eithrio galwadau 999) i sicrhau cydymffurfedd â'r Safonau.

### 6.2.1 GIG 111 Cymru – Adolygiad o'r gwasanaeth

Rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026, adroddodd Gwasanaeth 111 GIG Cymru am welliant sylweddol yng nghyfran y galwadau a atebwyd yn y Gymraeg, gan gynyddu o 45% i 62% (cynnydd o 17% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol).

#### Nifer y galwadau Cymraeg i'r Gwasanaeth GIG 111 Cymru a'r gyfradd ateb 2025-26

| Dyddiad             | Galwadau Cymraeg a gynigiwyd | Cyfanswm y galwadau a atebwyd yn y Gymraeg | % y galwadau a atebwyd yn y Gymraeg |
|---------------------|------------------------------|--------------------------------------------|-------------------------------------|
| 01/04/25 – 31/03/26 | 18,282                       | 11,165                                     | 62%                                 |
| 01/04/24 – 31/03/25 | 18,462                       | 8,444                                      | 45%                                 |

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynwyd sawl menter sydd wedi cyfrannu at gynydd amlwg yn nifer y galwadau a atebwyd yn y Gymraeg o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Un newid arwyddocaol, a weithredwyd ym mis Mehefin 2025, oedd cyflwyno opsiwn i alwyr dewis peidio ag aros am driniwr galwadau sy'n siarad

Cymraeg ar ôl 15 munud. Mae hyn yn caniatáu i alwyr ailymuno â'r ciw Saesneg os yw'n well ganddynt, gan roi'r hyblygrwydd iddynt benderfynu a ydynt am barhau i aros am driniwr galwadau sy'n siarad Cymraeg.

Yn dilyn dadansoddiad pellach o batrymau galwadau Cymraeg, ac oherwydd bod y galw am y gwasanaeth Cymraeg ar ei uchaf yn ystod penwythnosau a Gwyliau Banc, mae'r gwasanaeth wedi ymestyn yr oriau y mae trinwyr galwadau Cymraeg penodedig ar gael, o 08:00–14:00 i 08:00–16:00.

Yn ystod yr amseroedd brig hyn, mae proffiliau dau driniwr galwadau sy'n siarad Cymraeg yn cael eu haddasu fel eu bod yn rheoli galwadau sy'n cyflwyno yn Gymraeg yn unig. Mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i drin nifer uwch o alwadau Cymraeg yn ystod cyfnodau prysur, gan gyfrannu at gyfradd ateb well yn y Gymraeg.

Mae recriwtio wedi'i dargedu ar gyfer trinwyr galwadau sy'n siarad Cymraeg hefyd wedi bod yn gymharol lwyddiannus, gan helpu i gynnal y gyfradd ateb galwadau Cymraeg. Yn ogystal, mae staff yn parhau i gael eu cefnogi drwy sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hyfforddiant ar drin galwadau sy'n cyflwyno yn y Gymraeg. O ganlyniad, mae nifer y cwynion Cymraeg a dderbyniwyd gan y gwasanaeth wedi lleihau, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol am y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn.

Mae perfformiad yn erbyn y gyfradd ateb yn y Gymraeg yn parhau i fod yn ffocws allweddol i dîm arwain gweithredol GIG 111 Cymru. Mae'r mentrau hyn yn ffurfio rhan o'r ymroddiad parhaus i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i alwyr sy'n siarad Cymraeg. Drwy barhau i deilwra'r dull hwn, y nod yw gwella profiad galwyr a sicrhau eu bod yn derbyn cymorth prydlon ac effeithiol.

Yn 2026, bydd Gwasanaeth GIG 111 Cymru yn lansio ei gynllun pum mlynedd newydd ar gyfer darparu ymgynghori clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y cynllun yn nodi uchelgeisiau a chyflawniadau allweddol manwl mewn perthynas â'r Gymraeg. Bydd yn cynnwys trin galwadau mewnol/111 yn ogystal â gwasanaethau clinigol 111.

### **6.2.2 Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys**

#### **Nifer y galwadau Cymraeg i NEPTS a'r gyfradd ateb 2025-26**

| Galw am y Gymraeg   | Galwadau Cymraeg a gynigiwyd | Cyfanswm y galwadau a atebwyd yn Gymraeg | % y galwadau a atebwyd yn Gymraeg |
|---------------------|------------------------------|------------------------------------------|-----------------------------------|
| 01/04/25 – 31/03/26 | 3,545                        | 2,638                                    | 74%                               |
| 01/04/24 – 31/03/25 | 4,294                        | 4,327                                    | 77%                               |

Pan fydd galwyr yn cysylltu â NEPTS byddant yn cwblhau Asesiad o Anghenion y Claf sef set strwythuredig o gwestiynau wedi'u cynllunio i bennu anghenion a gofynion meddygol pob claf sy'n teithio gyda NEPTS. Mae'r asesiad wedi'i gyfieithu'n broffesiynol, caiff ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd, ac mae'r fersiynau Cymraeg yn cael eu diweddarau'n barhaus er mwyn i dderbynwyr galwadau Cymraeg NEPTS allu eu defnyddio.

Dosbarthwyd cardiau geirfa desg i staff yng nghanolfan galwadau NEPTS er mwyn sicrhau bod staff trin galwadau yn gallu cefnogi cleifion Cymraeg eu hiaith yn hyderus ac yn gyson. Mae hyn yn helpu i gasglu gwybodaeth yn gywir, lleihau camddealltwriaethau a gwella profiad cyffredinol y claf drwy ddarparu gwasanaethau yn ei ddewis iaith.

### 6.3 Cyfarfodydd (Safonau 21 – 30)

#### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd isel ar gyfer Safonau 21-22 a 26-30 (Cynnal cyfarfodydd yn y Gymraeg). Cynhelir y mwyafrif helaeth o gyfarfodydd, yn enwedig cyfarfodydd ffurfiol y bwrdd, pwyllgorau a phwyllgorau mewnol, yn Saesneg.

Cyhoeddir gwahoddiadau i gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i bartneriaid a rhanddeiliaid yn ddwyieithog drwy e-bost, gyda gwybodaeth ategol hefyd yn cael ei rhannu'n ddwyieithog drwy gyfryngau cymdeithasol a gwefan yr Ymddiriedolaeth.

Mae holl gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r agendâu cysylltiedig ar gael yn Gymraeg, ac mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Ymddiriedolaeth yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Lle y bo modd, cynhyrchir cyflwyniadau sleidiau a ddefnyddir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ddwyieithog hefyd.

Mae cefndir corfforaethol dwyieithog newydd wedi'i greu ar gyfer Teams ac mae ar gael i staff ar SharePoint.

"Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cynnig cyfle gwerthfawr i ddyfnhau eich dealltwriaeth o'r gwasanaeth ambiwlans a chael mewnwleidiad i sut mae penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud."

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ei chyfarfod Bwrdd deufisol nesaf ddydd Iau 29 Ionawr, ac mae croeso i aelodau'r cyhoedd ymuno ar-lein drwy Microsoft Teams.

Bydd uwch arweinwyr yn trafod agenda lawn eitemau, gan gynnwys:

- ✓ Diweddariad gan y Prif Weithredwr
- ✓ Sut rydym yn gweithio i leihau niwed i gleifion
- ✓ Profiad claf pwerus a rennir gan Judith, y profiad sydd wedi arwain at greu Bwrdd Cwmpïadau yr Ymddiriedolaeth

Am fwy o wybodaeth gan gynnwys sut i gyflwyno cwestiwn ymlaen llaw, cliciwch y ddolen yn y sylwadau.

See translation

**Ymunwch â ni ar  
Microsoft Teams**

29 Ionawr 2026

**Bwrdd yr Ymddiriedolaeth**



## Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Yn ystod 2026/27 byddwn yn gwreiddio ystyriaethau'r Gymraeg mewn cynllunio cyfarfodydd a chyflwyniadau arferol drwy sefydlu dull clir a chyson o gasglu dewisiadau iaith ymlaen llaw. Yn ystod y cyfnod gwahodd, gofynnir i fynychwyr y cyfarfod a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a cheisir cadarnhad gan siaradwyr gwadd cyn cyfarfodydd ynghylch a ydynt yn bwriadu cyflwyno yn y Gymraeg.

Ochr yn ochr â hynny, bydd yr Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo mynediad at wasanaethau cyfieithu ar y pryd a'u defnyddio er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ac i sicrhau bod y canllawiau dylunio dwyieithog (<https://www.comisiynyddygydraeg.cymru/media/pzedsr4l/dylunio-dwyieithog-bilingual-design.pdf>) a ddarperir gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn hygyrch ac yn cael eu deall yn eang. Lle y bo modd, bydd Tîm y Gymraeg yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi creu cyflwyniadau gyda sleidiau dwyieithog i alluogi cyfranogiad cynhwysol ac atgyfnerthu ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i arferion gwaith dwyieithog.

## 6.4 Digwyddiadau cyhoeddus (Safonau 31 – 32)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd canolog ar gyfer Safonau 31-32 (Cynnal digwyddiadau cyhoeddus yn y Gymraeg).

Mae digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael eu cydlynu gan y Tîm Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned ac yn cael eu cyfathrebu'n ddwyieithog, gydag adnoddau dwyieithog ar gael i gefnogi cyfranogwyr. Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg sy'n cydlynu cyfranogiad yr Ymddiriedolaeth mewn digwyddiadau fel yr Eisteddfod.

### Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025

Cymerodd yr Ymddiriedolaeth ran yn yr Eisteddfod Genedlaethol 2025 yn Wrecsam fel rhan o stondin GIG Cymru a ariannwyd ar y cyd, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a sefydliadau GIG Cymru a oedd yn cymryd rhan. Roedd mynychu'r Eisteddfod yn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd, codi ymwybyddiaeth o wasanaethau'r Ymddiriedolaeth, a hyrwyddo'r Gymraeg a'r diwylliant mewn ffordd gadarnhaol.

Amlygodd adborth gan staff a mynychwyr gydlynu gweithredol cryf, ymgysylltiad cyhoeddus ystyrlon, a gwaith tîm cadarnhaol drwy gydol y digwyddiad. Bu Jeremy Miles AS, cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, hefyd yn ymweld â stondin y GIG. Wrth ymgysylltu â staff a chymryd rhan mewn hyfforddiant CPR, helpodd i godi proffil presenoldeb yr Ymddiriedolaeth yn y digwyddiad ac i amlygu ei chyfraniad.



Gan fod gwirfoddolwyr bellach yn cefnogi nifer gynyddol o ddigwyddiadau, mae angen cynyddol i sicrhau bod digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu cefnogaeth iaith briodol. I fynd i'r afael â hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn archwilio

sefydlu cronfa o staff sy'n siarad Cymraeg y gellir cysylltu â nhw i gynorthwyo mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ôl yr angen.

Lle bynnag y derbynnir adborth cadarnhaol, caiff hwn ei rannu'n fewnol i ddarparu canllawiau pellach a hyrwyddo arfer da.

## 6.5 Dogfennau a ffurflenni (Safonau 36 - 38)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd canolig ar gyfer Safonau 36-38 (Cyhoeddir dogfennau a ffurflenni yn y Gymraeg).

Ers dechrau mis Medi 2023, mae gan yr Ymddiriedolaeth wasanaeth cyfieithu mewnol pwrpasol, sydd ar gael i'r holl staff trwy gyfrif e-bost a blwch negeseuon e-bost cyffredinol.

Yn ogystal, mae canllawiau ar gyfer staff ynghylch sut i gyrchu a chyflwyno gwaith i'w gyfieithu bellach ar gael ar safle SharePoint yr Ymddiriedolaeth. Mae'r cyfleuster hwn wedi bod yn allweddol i alluogi cydymffurfedd â'r Safonau o ran dogfennau a ffurflenni.

### Dogfennau'r Ymddiriedolaeth

Dangosodd adolygiad o'r dogfennau a gyhoeddwyd ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2025 gydymffurfedd o 100% â'r gofynion cyhoeddi yn y Gymraeg ar gyfer dogfennau corfforaethol allweddol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys strategaethau a chynlluniau. Mae hyn yn cynrychioli gwelliant sylweddol o'i gymharu â chydymffurfedd o 78% a adroddwyd yn 2024, gan ddangos trefniadau llywodraethu cryfach ac ymrwymiad parhaus i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog yn unol â'r Safonau gofynnol.

### Ffurflenni'r Ymddiriedolaeth

Mae sawl ffurflen ar gyfer y cyhoedd bellach ar gael yn y Gymraeg, gan wella hygyrchedd a chefnogi ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys ffurflen adborth NEPTS, ffurflen canslo cludiant NEPTS, ffurflen adborth gwasanaethau dwyieithog, a ffurflen gyflwyno Gwranddo ar Bobl. Mae sicrhau bod y ffurflenni allweddol hyn ar gael yn y Gymraeg yn helpu i sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd ymgysylltu â gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth yn hyderus ac yn eu dewis iaith.

## Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth ymhellach, bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu a mireinio ei phroses asesu er mwyn helpu awduron dogfennau i benderfynu pa ddogfennau neu ffurflenni y dylid eu darparu yn Gymraeg.

Yn ogystal, bydd y Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg yn ymgysylltu â Thîm Cyfathrebu'r Ymddiriedolaeth i archwilio'r posibilrwydd o gynnwys meini prawf ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg o fewn Canllawiau Brand yr Ymddiriedolaeth o ran dogfennau a ffurflenni.

## 6.6 Deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu (Safonau 33 – 34)

### Asesiad o sicrwydd



Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer Safonau 33-34 (Deunyddiau cyhoeddusrwydd a hysbysebu a gynhyrchwyd yn y Gymraeg).

Mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a hysbysebu a gynhyrchir gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyhoedd bellach ar gael yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn cynnwys datganiadau i'r wasg, cynnwys ar draws holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yr Ymddiriedolaeth, a deunyddiau i'r wefan.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth 70 o ddatganiadau i'r wasg dwyieithog, gan ddangos cydymffurfedd parhaus â'r Safonau.

Datblygwyd cyhoeddusrwydd i esbonio Model Ymateb Clinigol newydd yr Ymddiriedolaeth, gan amlygu newidiadau i sut mae galwadau 999 i Wasanaeth Ambiwlans Cymru yn cael eu rheoli. Er mwyn sicrhau hygyrchedd a hyrwyddo dealltwriaeth ar draws pob cymuned, cynhyrchwyd a chyhoeddwyd cyfres o fideos YouTube yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir eu gwyllo [yma](#) ac [yma](#).

Darperir enghraifft arall o weithgarwch cyhoeddusrwydd dwyieithog yn ystod y cyfnod hwn isod, yn ymwneud â hyrwyddo cyfleoedd gyrrwyr ceir gwirfoddol a Model Ymateb newydd yr Ymddiriedolaeth.



Mae'r adnoddau dwyieithog hyn yn helpu i sicrhau cyfathrebu clir â'r cyhoedd ac yn adlewyrchu ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i ddarparu gwybodaeth yn unol â dewis iaith yr unigolyn.

## 6.7 Gwefannau a gwasanaethau ar-lein (Safonau 39 – 43)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd canolig ar gyfer Safonau 39-43 (Gwefannau a gwasanaethau digidol cyhoeddus (gan gynnwys apiau) ar gael yn Gymraeg).

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddwy wefan, sef gwefan Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, a gwefan GIG 111 Cymru, yr ydym yn ei gweithredu fel darparwr a gomisiynwyd o 111 ledled Cymru. Mae rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gwefannau hyn, a'r camau gweithredu pellach a gynlluniwyd, wedi'u nodi isod.

### 6.7.1 Gwefan GIG 111 Cymru

#### Gwirwyr Symptomau Ar-lein GIG 111 Cymru

Fel rhan o ailddatblygiad parhaus gwefan GIG 111 Cymru, mae gwirwyr symptomau newydd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd i wella cywirdeb clinigol, defnyddioldeb a diogelwch cleifion. Elfen allweddol o'r gwaith hwn yw cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg i sicrhau bod y Gymraeg wedi'i gwreiddio o fewn mynediad digidol at ofal.

Mae'r gwirwyr symptomau'n cael eu cynllunio i gefnogi cynnwys Cymraeg o safon glinigol o'r cychwyn cyntaf, gan sicrhau bod yr wybodaeth yn Gymraeg yn gywir, â sicrwydd clinigol, ac yn cael ei diweddarau ochr yn ochr â'r cynnwys Saesneg. Bydd y dull hwn yn dileu'r risg flaenorol sy'n gysylltiedig â chynnwys Cymraeg yn mynd yn anghyfredol a bydd yn sicrhau cydraddoldeb rhwng ieithoedd wrth i'r gwirwyr symptomau gael eu diweddarau neu eu datblygu. Disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2026.

Mae gweithredu'r gwirwyr symptomau newydd yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen wrth gryfhau'r ddarpariaeth ddigidol Gymraeg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad diogel at gyngor ac arweiniad ar-lein yn eu hiaith o ddewis, heb wynebu oedi na bod dan anfantais o gymharu â defnyddwyr eraill. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi'n uniongyrchol ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i'r Safonau, y cynnig rhagweithiol, a darparu gwasanaethau digidol dwyieithog teg a chyfartal i bobl Cymru.

### **Datblygu Gwefan GIG 111 Cymru**


Mae cyllid bellach wedi'i sicrhau i gefnogi cam nesaf datblygu gwasanaeth ar-lein GIG 111 Cymru. Mae gwaith ar y gweill gyda chomisiynwyr a rhanddeiliaid allweddol i gytuno ar y cynllun ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol, y trefniadau gweithredu a'r map ffordd cyflawni, gan ganolbwyntio ar wella profiad y defnyddiwr, hygyrchedd, a darpariaeth gwasanaethau digidol dwyieithog.

Un o brif ffocysau'r ailddatblygiad yw gwella cydraddoldeb rhwng cynnwys digidol Cymraeg a Saesneg, gan leihau'r risg na fydd gwybodaeth Gymraeg yn cael ei chadw'n gyfredol pan fydd cynnwys clinigol yn newid. Mae'r dull hwn yn cefnogi diogelwch cleifion ac yn atgyfnerthu ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i ddarparu mynediad cyfartal at gyngor ac arweiniad ar-lein yn unol â dewis iaith y claf.

### **Cynorthwydd Rhithwir (AlBot)**

Mae'r cynorthwydd rhithwir 'AlBot' ar gael ar wefan GIG 111 Cymru ac yn cefnogi rhyngweithio yn y Gymraeg, gan alluogi defnyddwyr i ofyn cwestiynau a derbyn ymatebion yn y Gymraeg (pan fydd y defnyddiwr wedi dewis y Gymraeg fel ei ddewis iaith). Gan adeiladu ar y gallu hwn, cyflwynwyd cynllun peilot pedair wythnos o wasanaeth asiant byw i ategu'r ymatebion awtomataidd, gan ddarparu llwybr i ddefnyddwyr gael cymorth gan gynghorydd go iawn pan fo angen. Cefnogodd y dull hwn well hygyrchedd a pharhad i ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig lle

mae ymholiadau'n fwy cymhleth neu angen sicrwydd, gan gynnwys cydraddoldeb rhwng gwasanaethau Cymraeg a Saesneg.



O 1/8/25 i 31/3/26 bu 42mil o ryngweithiadau gydag AIBot, gan gynnwys 72 yn y Gymraeg. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fonitro'r rhyngweithiadau hyn yn 2026/27

### Ap Hwb Golau Glas

Mae [ap Hwb Golau Glas](#), a ddatblygwyd gan yr Ymddiriedolaeth, yn adnodd addysgol dwyieithog ar gyfer plant 7 i 12 oed, sydd wedi'i gynllunio i godi ymwybyddiaeth ac i feithrin hyder a sgiliau achub bywyd ymhlith pobl ifanc.

Rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, gosodwyd ap Hwb Golau Glas ar **558** o ddyfeisiau Android a **206** o ddyfeisiau iOS. Ers ei lansio, mae'r ap wedi'i osod 14,908 o weithiau ar ddyfeisiau Android a 5,594 o weithiau ar ddyfeisiau iOS. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys achosion lle mae defnyddwyr wedi ailosod yr ap eu dyfais. Gan nad oes unrhyw ddata ar lefel-defnyddiwr yn cael eu casglu drwy'r ap, nid yw'n bosibl darparu gwybodaeth benodol am y defnydd o'r Gymraeg.

## 6.8 Cyfryngau cymdeithasol (Safonau 45 – 46)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer Safonau 45-46 (nid yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar gyfryngau cymdeithasol).

Tystiolaeth i gefnogi'r asesiad

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer Facebook, X ac Instagram. Mae pob postiad Saesneg yn cael ei atgynhyrchu yn y Gymraeg yn rheolaidd. LinkedIn yw'r unig gyfrif dwyieithog o hyd.

Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol dwyieithog: data (01 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026)

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer Facebook, X ac Instagram. Mae pob postiad Saesneg yn cael ei atgynhyrchu yn y Gymraeg yn rheolaidd. LinkedIn yw'r unig gyfrif dwyieithog o hyd.

X

Ym mis Tachwedd 2024, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth y penderfyniad i gyfyngu ei weithgarwch ar X i gyhoeddi negeseuon rhybuddio a darparu gwybodaeth yn unig. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cyhoeddi unrhyw bostiadau ar y platfform hwn ers 31 Rhagfyr 2024, a'r tro diwethaf iddi rannu cynnwys oedd 16 Tachwedd 2025. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi ildio ei henw defnyddiwr ar X, gan nad yw am i unrhyw un allu dynwared yr Ymddiriedolaeth ar y platfform. Ar adegau o alw uchel, mae'n bosibl y bydd yr Ymddiriedolaeth yn ailystyried defnyddio'r platfform i gyhoeddi negeseuon brys, ond fel arfer Facebook ac Instagram yw'r prif sianeli a ddefnyddir at y diben hwn. Am y rheswm hwn, ynghyd ag anhygyrchedd dadansoddeg X ers newid Twitter i X, y data canlynol yw'r cyfan sydd ar gael.

|                     | @Ambiwlans_Cymru | @WelshAmbulance |
|---------------------|------------------|-----------------|
| Cyfanswm y dilynwyr | 383              | 23,000          |

## Facebook

|                                | Ymddiriedolaeth<br>Brifysgol GIG<br>Gwasanaethau<br>Ambiwlans Cymru | Welsh Ambulance<br>Services University NHS<br>Trust |
|--------------------------------|---------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------|
| Cyfanswm y dilynwyr            | 316                                                                 | 42,620                                              |
| Ymweliadau â thudalen          | 1,734                                                               | 141,676                                             |
| Cyfanswm y cyrhaeddiad         | 29,177                                                              | 7,517,518                                           |
| Rhyngweithiadau â'r<br>cynnwys | 442                                                                 | 52,905                                              |
| Y nifer sy'n agor dolenni      | 14                                                                  | 17                                                  |

## Instagram

|                     | Ymddiriedolaeth<br>Brifysgol GIG<br>Gwasanaethau<br>Ambiwlans Cymru | Welsh Ambulance<br>Services University NHS<br>Trust |
|---------------------|---------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------|
| Cyfanswm y dilynwyr | 42                                                                  | 5,894                                               |
| Cyrhaeddiad         | 22                                                                  | 286,399                                             |

Ers mis Ionawr 2025, rydym wedi cael dau gyfrif ar wahân ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ymgysylltiad ar y cyfrif Cymraeg wedi tyfu, er ei fod wedi bod yn araf iawn o'i gymharu â'r Saesneg.

## LinkedIn

Y platfform hwn yw unig gyfrif dwyieithog yr Ymddiriedolaeth lle mae postïadau Cymraeg a Saesneg yn cael eu postio gyda'i gilydd ar yr un dudalen ond fel postïadau unigol.

|                             | WAST    |
|-----------------------------|---------|
| Cyfanswm y dilynwyr         | 8,761   |
| Argraffiadau                | 300,909 |
| Ymweliadau â<br>thudalennau | 4,083   |

Mae gwefan GIG 111 Cymru yn gweithredu ei chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Facebook (FB) Cymraeg a Saesneg ei hun.

| Metrig                      | FB NHS 111 Wales | FB GIG 111 Cymru |
|-----------------------------|------------------|------------------|
| Nifer yr ymweliadau         | 3,698,268        | 10,636           |
| Ymweliadau â thudalen       | 9,815            | 432              |
| Rhyngweithiadau â'r cynnwys | 2,008            | 72               |
| Dilynwyr                    | 7,071            | 106              |

Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Bydd rheolwyr gwasanaethau a Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yn monitro cydymffurfedd â'r safon hon yn rheolaidd, gyda gweithgarwch yn cael ei adrodd yn rheolaidd i Grŵp Cyngori'r Gymraeg o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

6.9 Arwyddion a hysbysiadau (Safonau 47 - 49)

Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer Safonau 47-49 (Mae arwyddion yn cael eu harddangos yn y Gymraeg).

Ystadau'r Ymddiriedolaeth

Mae pob prosiect adeiladu ac adnewyddu newydd ar draws ystâd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys gosod arwyddion dwyieithog newydd. Mae'r arwyddion hyn yn cael eu hadolygu a'u gwirio o ran ansawdd gan Dîm y Gymraeg i sicrhau cywirdeb, cysondeb a chydymffurfedd â'r Safonau.

Mae arwyddion dwyieithog wedi'u gosod yn y safleoedd canlynol:

- Tŷ Bannau (Pencadlys Rhanbarthol)
- Gorsaf Ambiwlans Castell-nedd
- Gorsaf Ambiwlans Abertawe
- Gorsaf Ambiwlans Gorseinon
- Gorsaf Ambiwlans Glynrhedynog

- Gorsaf Ambiwylans Ystradgynlais

Isod mae enghreifftiau o arwyddion mewnol dwyieithog a osodwyd yn y safleoedd hyn, sy'n dangos ymrwymiad parhaus yr Ymddiriedolaeth i amgylchedd dwyieithog.



Pan fo angen arwyddion a hysbysiadau dros dro neu ad hoc ar safleoedd yr Ymddiriedolaeth, mae Tîm y Gymraeg yn gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Ystadau i ddatblygu cyfres o dempledi dwyieithog y gellir eu hargraffu. Bydd y rhain yn ei gwneud yn hawdd i staff argraffu ac arddangos arwyddion a hysbysiadau dros dro sy'n cydymffurfio yn eu gweithleoedd pan fo angen, gan sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog yn parhau i gael ei darparu ledled yr ystâd.

### Fflyd yr Ymddiriedolaeth

Prynwyd 44 o Ambiwylansys Argyfwng gyda brandio dwyieithog.



Yn ogystal, prynwyd 65 o gerbydau di-frys a 15 o gerbydau ymateb sengl gyda brandio dwyieithog.

Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Bydd arwyddion ar draws y sefydliad a'i gerbydau yn cael eu hadolygu a'u monitro'n barhaus.

## 6.10 Gwasanaethau derbynfa (Safonau 50 - 53)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel o ddim sicrwydd ar gyfer Safonau 50-53 (gwasanaethau derbynfa Cymraeg).

Er bod prosesau recriwtio'r Ymddiriedolaeth yn annog ceisiadau'n weithredol gan ymgeiswyr sy'n siarad Saesneg a Chymraeg, nid oes unrhyw siaradwyr Cymraeg mewn rolau derbynfa pwrpasol o fewn yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd.

### Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Mewn ymateb i'r sefyllfa hon, mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu'r holl opsiynau sydd ar gael i sicrhau darpariaeth y Gymraeg mewn mannau derbyn lle bo angen. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda thimau ym mhob lleoliad i nodi staff a all ddarparu cefnogaeth yn Gymraeg pan fo angen. Byddwn hefyd yn datblygu rhestr o bwyntiau cyswllt dynodedig i gefnogi darparu gwasanaethau derbynfa neu ymateb i ymholiadau'r cyhoedd yn Gymraeg wrth bwyntiau mynediad i adeiladau.

I gefnogi'r dull hwn, mae cardiau geirfa desg "*Sut i Ateb y Ffôn*" wedi'u dosbarthu i ardaloedd derbynfa. Yn ogystal, mae sesiwn sgiliau cwrteisi iaith Gymraeg newydd wedi'i datblygu ar gyfer staff sy'n gweithio mewn derbynfeydd ar draws safleoedd yr Ymddiriedolaeth, gyda chynlluniau i hwyluso'r sesiynau hyn yn ystod 2026/27.

## 6.11 Dyfarnu contractau (Safonau 57 - 59)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd canolig ar gyfer Safonau 57-59 (Mae prosesau ar gyfer dyfarnu grantiau a chontractau yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg)

Caiff gwahoddiadau i dendro eu cyhoeddi'n ddwyieithog os yw pwnc y gwahoddiad i dendro yn awgrymu y dylid ei gynhyrchu yn Gymraeg, neu os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu'r testun yn Gymraeg. Gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ni chyhoeddwyd unrhyw geisiadau am dendrau neu gontractau yn Gymraeg, ac ni dderbyniwyd yr un yn Gymraeg.

### Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Ar gyfer 2026/27, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn datblygu Offeryn Asesu Caffael y Gymraeg i'w ddefnyddio gan reolwyr contractau wrth gynnal asesiad o ofynion y Gymraeg ar gyfer unrhyw gontractau a ddyfernir sydd â gwerth cyffredinol sy'n fwy na £5,000.

## 6.12 Hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg (Safonau 60 – 61)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer Safonau 60-61 ar gyfer hyrwyddo defnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r holl gyhoeddusrwydd ar gyfer gwasanaeth GIG 111 Cymru yn cael ei wneud yn ddwyieithog ar hysbysebion teledu, fideo ar alw a thaflenni.



## Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Hyrwyddo ymhellach wasanaethau presennol yr Ymddiriedolaeth sy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg a sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol eu bod yn gallu cysylltu â'r gwasanaethau hyn yn Gymraeg.

### 6.13 Hunaniaeth gorfforaethol (Safon 62)

#### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer safon 62 (Hunaniaeth gorfforaethol yn Gymraeg).

Ar 1 Ebrill 2024, dyfarnwyd statws Ymddiriedolaeth Brifysgol i'r Ymddiriedolaeth ac o ganlyniad diweddarwyd logo GIG Cymru yr Ymddiriedolaeth i adlewyrchu hyn. Uchafbwynt nodedig oedd bathu darn arian coffa newydd yn dwyn Bathodyn y Goron wedi'i ddiweddarau, a gyflwynwyd yng Ngwobrau Gwasanaeth Hir yn 2025/26.



### 6.14 Darparu cyrsiau addysgol yn Gymraeg (Safon 63)

#### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd canolig ar gyfer safon 63 (Darparu cyrsiau addysgol yn Gymraeg).

Mae Restart a Heart (RSAH) Live yn ddigwyddiad ar-lein 12 awr sy'n cael ei ffrydio'n fyw i ystafelloedd dosbarth. Mae amserlen o ddigwyddiadau yn caniatáu i'r athrawon ddewis pa adran / iaith maen nhw am ei gwyllo. At ei gilydd, ledled y DU, cymerodd 101,000 o blant ran yn y digwyddiad RSAH Live. O'r rheini, roedd 27,000 o ysgolion yng Nghymru. Dyma'r fenter gyntaf o'i bath yn y DU ac mae Achub Bywyd Cymru wedi sicrhau bod cynnwys ar gael yn y Gymraeg, sydd yn gam mawr ymlaen ynddo'i hun ar gyfer digwyddiad mor genedlaethol.

## Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Nodi staff sy'n siarad Cymraeg o fewn y sefydliad y gellid cysylltu â nhw i gefnogi darparu hyfforddiant yn y Gymraeg.

## **6.15 Gwneir cyhoeddiadau dros system annerch gyhoeddus yn Gymraeg a gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg yn gyntaf (Safon 64).**

### **Asesiad o sicrwydd**

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer safon 64.

Mae'r safon hon yn berthnasol i gerbydau'r Ymddiriedolaeth a weithgynhyrchwyd ar ôl 30 Mai 2019 sydd â system rhybudd sain pan fydd cerbyd yn bacio'n ôl. Mae pob cerbyd perthnasol yr Ymddiriedolaeth wedi'i gyfarparu â neges rhybuddio sain ddwyieithog sy'n chwarae pan fydd y cerbyd yn bacio'n ôl, gan sicrhau bod cerddwyr yn derbyn rhybuddion diogelwch clir a hygyrch yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cefnogi cydymffurfedd â'r Safonau wrth hyrwyddo diogelwch y cyhoedd ar draws gweithrediadau'r Ymddiriedolaeth.

### **Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd**

Bydd Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yn parhau i weithio'n agos gyda'r Pennaeth Fflyd i sicrhau cydymffurfedd â'r Safonau mewn perthynas â cherbydau'r Ymddiriedolaeth.

## **7. Safonau llunio polisi (Safonau 69 – 77)**

### **Asesiad o sicrwydd**

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer Safonau 69-74; a dim sicrwydd ar gyfer Safonau 75-77 ar gyfer ymchwil a gomisiynwyd neu a gynhaliwyd i ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg.

Grŵp Polisi'r Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses lywodraethu sy'n ymwneud â datblygu a diwygio polisiau. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r pwyllgorau perthnasol yn derbyn sicrwydd bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gwblhau wrth gymeradwyo polisiau a neilltuwyd. Mae Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yn aelod craidd o Grŵp Polisi'r Ymddiriedolaeth i roi cyngor a sicrhau bod y Safonau'n cael eu dilyn er mwyn rhoi sicrwydd.

Mae pob polisi newydd a diwygiedig a gyflwynir i'r Grŵp Polisi yn cael ei ategu gan asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gwblhau sy'n ystyried yr effeithiau posibl ar y Gymraeg. Rhaid i'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n ategu polisiâu fod wedi'u cynnal mewn partneriaeth â'r Partner Undeb Llafur a enwir, gyda'r fersiwn derfynol yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan Bennaeth Cynhwysiant ac Ymgysylltu. Ni dderbynnir unrhyw bolisiâu i'w cyflwyno i'r Grŵp Polisi heb asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gymeradwyo.

Daeth archwiliad mewnol Safonau 2025/26, a gynhaliwyd gan PCCG, i'r casgliad bod y polisiâu a'r gweithdrefnau presennol yn darparu cefnogaeth ddigonol i sicrhau bod y Safonau'n cael eu cymhwyso'n gyson, gan arwain at sicrwydd sylweddol.

### Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Mae gan Reolwr Gwasanaethau'r Gymraeg fynediad at Draciwr Polisiâu'r Ymddiriedolaeth ac mae'n darparu cyngor ac arweiniad ynghylch polisiâu y mae angen iddynt fod ar gael yn Gymraeg.

Ar adeg ysgrifennu, roedd polisi ymchwil a datblygu yn cael ei ddatblygu. Bydd Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yn gweithio gyda'r arweinydd polisi i sicrhau bod ystyriaethau o ran y Gymraeg yn cael eu cynnwys.

Bydd Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yn ymgysylltu â meysydd gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â chomisiynu ymchwil i sicrhau bod yr effaith ar y Gymraeg yn cael ei hystyried.

## 8. Safonau gweithredu (Safonau 79 – 114)

Mae'r set hon o Safonau Gweithredol yn ymdrin â'r ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac yn rhoi'r hawl i weithwyr dderbyn gwasanaethau Gwasanaethau Pobl yn eu dewis iaith.

### 8.1 Polisi ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg (Safon 79)

#### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer safon 79.

Datblygwyd Polisi'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2024/25 a'i gymeradwyo'n ffurfiol ym mis Tachwedd 2024. Mae'r polisi'n nodi'r Safonau y mae'n ofynnol i staff gydymffurfio â nhw, gan egluro eu pwysigrwydd i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a sut maen nhw'n cefnogi cyflwyno Cynnig Rhagweithiol i staff a chleifion.



Un o'r camau allweddol a ddeilliodd o'r polisi oedd sefydlu Rhwydwaith y Gymraeg. Lansiwyd Rhwydwaith y Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, *Rhwyd-iaith*, yn ystod y cyfnod adrodd i ddarparu fforwm agored a thryloyw i staff sy'n cefnogi'n weithredol defnydd, gwelededd a thwf y Gymraeg a diwylliant o fewn y sefydliad.

Mae Rhwydwaith y Gymraeg yn eistedd ochr yn ochr â rhwydweithiau staff eraill yr Ymddiriedolaeth ac yn cyfrannu at ddiwylliant ehangach o gynhwysiant a pherthyn ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae gan y rhwydwaith 48 o aelodau ar hyn o bryd. Mae Rachel Marsh, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad, wedi'i phenodi'n noddwr gweithredol ar gyfer *Rhwyd-iaith*, gan ddarparu cefnogaeth ac eiriolaeth i uwch arweinwyr ar gyfer ei waith.

## Sioeau Teithiol y Prif Swyddog Gweithredol



Yn ystod 2025/26, cymerodd Tîm y Gymraeg ran yn Sioeau Teithiol y Prif Swyddog Gweithredol ledled Cymru i ymgysylltu â staff i hyrwyddo mentrau iaith Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o Bolisi'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth. Roedd staff yn gallu cofrestru ar gyfer y digwyddiad drwy lenwi ffurflen gofrestru ddwyieithog.

## Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Fel cam gweithredu pellach ar gyfer y flwyddyn nesaf, bydd yr Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo diwylliant lle mae'r Gymraeg yn cael ei chydabod fel cyfrifoldeb pawb. Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy gyflwyno ymgyrchoedd ymwybyddiaeth mewnol wedi'u targedu, gan gynnwys mentrau fel Wythnos y Gymraeg a Diwrnod Shwmae, i gynyddu gwelededd a defnydd bob dydd ymhlith staff. Yn ogystal, bydd arferion da yn cael eu hatgyfnerthu drwy rannu straeon llwyddiant ac astudiaethau achos yn rheolaidd sy'n amlygu gwasanaethau sy'n darparu gofal yn llwyddiannus drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r nod o annog mabwysiadu'r arferion hyn yn ehangach ar draws yr Ymddiriedolaeth.

## 8.2 Dogfennau Cyflogaeth (Safonau 80 – 81)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd canolog ar gyfer Safonau 80-81.

Mae contractau cyflogaeth ar gael yn y Gymraeg drwy TRAC/ESR.

Mae ffurflen gais yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys cwestiwn am ddewis iaith. Yn ogystal, mae gwahoddiadau i gyfweiliadau yn rhoi opsiwn i ymgeiswyr ofyn am eu cyfweiliad yn y Gymraeg. Pan fo angen, caiff gwasanaethau cyfieithu eu trefnu. Dyma'r arfer safonol, a chyhoeddir pob canlyniad yn y Gymraeg drwy system Trac pan gyflwynir y cais yn y Gymraeg.

## Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Mae proses Adolygiad Gwerthuso a Datblygu Personol (AGDP) yr Ymddiriedolaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd yr holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r AGDP ar gael yn y Gymraeg. Mae Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth yn aelod o Grŵp Adolygu Canllawiau AGDP Rhanddeiliaid.

## 8.3 Polisiâu mewnol sydd ar gael yn Gymraeg (Safon 82)

## Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd isel ar gyfer safon 82.

Mae Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yn adolygu ac yn rhoi cyngor yn rheolaidd i lywio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer polisïau ac yn cynghori ynghylch a oes angen i bolisïau sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaethau fod ar gael yn y Gymraeg hefyd – mae hyn yn ymwneud yn bennaf â nifer fach o bolisïau sy'n ymwneud â'r gweithlu. Mae holl bolisïau GIG Cymru yn cael eu cyflenwi gan Uned Cyflogwyr GIG Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg, a chyhoeddir y ddwy fersiwn yn fewnol gan yr Ymddiriedolaeth. Darperir y canllawiau canlynol i Arweinwyr Polisi sydd naill ai'n datblygu neu'n adolygu polisi sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth:

*Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi sawl polisi yn Gymraeg; yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r canlynol:*

- ymddygiad yn y gweithle;
- iechyd a lles yn y gwaith;
- cyflogau neu fuddion yn y gweithle;
- rheoli perfformiad;
- absenoldeb o'r gwaith;
- amodau gwaith;
- patrymau gweithio.

## Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Hyrwyddo'r uchod yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Polisi yn ystod 2026/27

### 8.4 Prosesau cysylltiadau cyflogeion (Safonau 83 – 88)

## Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer Safonau 83-88.

Yn ystod 2025/26, cryfhaodd yr Ymddiriedolaeth ei threfniadau ar gyfer rheoli cwynion staff a gweithdrefnau disgyblu yn y Gymraeg drwy ddatblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer ymdrin â chwynion a phryderon a godwyd gan staff.

Mae'r weithdrefn gweithredu safonol yn nodi gofynion clir i sicrhau cydymffurfedd o ran y Gymraeg, gan gynnwys:

- Y dewis i brosesau cwyno a disgyblu cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Dyrannu swyddogion ymchwilio, cynrychiolwyr Gwasanaethau Pobl, cadeiryddion a chofnodwyr pan fo angen;
- Llwybr uwchgyfeirio sefydledig at yr Arweinydd Busnes Pobl a Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg ar gyfer cymorth cyfieithu;
- Gofyniad gorfodol i ddefnyddio geiriad dwyieithog safonol;
- Cadw gohebiaeth Gymraeg a Saesneg ar ffeil yr achos;
- Darparu llythyrau penderfyniad yn Gymraeg; a defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar gyfer gohebiaeth sy'n dod i mewn ac yn mynd allan pan fo angen.

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau gan staff i gynnal cyfweiliadau ymchwiliad disgyblu na gwrandawiadau disgyblu yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Er mwyn cryfhau llywodraethu a sicrwydd mewn perthynas â chydymffurfedd â'r Safonau, mae maes data ychwanegol wedi'i gyflwyno o fewn y traciwr Cysylltiadau Cyflogaion i gofnodi a ofynnir am gynnal gwrandawiadau yn Gymraeg.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi *Codi Llais heb Ofn* drwy sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau a phosteri ar gael yn ddwyieithog. Mae cymorth cyfieithu ar gael drwy wasanaeth cyfieithu'r Ymddiriedolaeth, gyda chymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Reolwr Cymorth Prosiect sy'n siarad Cymraeg a Gwarcheidwad sy'n siarad Cymraeg. Pan fo angen, gellir trefnu cyfieithydd Cymraeg annibynnol hefyd i sicrhau bod staff yn gallu codi pryderon yn hyderus yn eu dewis iaith.

### Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Bydd colofn ychwanegol yn cael ei hychwanegu at y traciwr Cysylltiadau Cyflogaion i gofnodi pryd y gofynnir i wrandawiadau gael eu cynnal yn Gymraeg, er mwyn sicrhau gwell monitro a chefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r opsiwn hwn ymhellach.

## 8.5 Darparu meddalwedd ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i staff (Safon 89)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer safon 89.

Mae meddalwedd gwirio sillafu, gramadeg a geiriadur Cysgliad/Cysill ar gael i'r holl staff ar gais gan y Ddesg Gymorth Gwybodaeth, Cyfathrebu a Thechnoleg (TGCh).

### Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd


Hyrwyddo, drwy Hwb Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, canllawiau clir ar sut y gall staff gael mynediad at Cysgliad/Cysill a'i ddefnyddio'n effeithiol.

## 8.6 Cael mewnrwyd sydd ar gael yn Gymraeg, ac sy'n darparu gwasanaethau a deunyddiau cymorth i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg (Safonau 90-95)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd canolig ar gyfer Safonau 90-95.

Mae tudalen gartref y fewnrwyd yn cynnwys tab dewis iaith sy'n cyfeirio defnyddwyr at fersiwn Gymraeg y fewnrwyd. Mae Hwb Iaith Gymraeg dynodedig yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr, gan gynnwys cyrsiau dysgu Cymraeg ar-lein, sgiliau cwrtseisi yn y Gymraeg, a chanllawiau ar gydymffurfio â'r Safonau.



## Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Gan fod y fewnrwyd staff yn sianel allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth weithredol hanfodol, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i gynyddu argaeledd cynnwys Cymraeg sy'n ymwneud â gwasanaethau cymorth i staff, gan gynnwys llesiant staff.

### 8.7 Darparu geiriad i staff ar gyfer llofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa yn y Gymraeg (Safon 104)

#### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer safon 104.

Mae Tîm y Gymraeg yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gefnogi staff yn weithredol drwy eu helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cyfathrebiadau dyddiol, gan gynnwys llofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa wedi'u teilwra.

Yn ogystal, mae templedi llofnod e-bost dwyieithog cymeradwy wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau Brand Corfforaethol 2026 wedi'u diweddarau, gan gefnogi cysondeb, proffesiynoldeb a chydymffurfedd â'r Safonau ar draws holl gyfathrebiadau e-bost yr Ymddiriedolaeth.

## Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Er mwyn cryfhau trefniadau monitro, bydd dull gweithredu strwythuredig yn cael ei ddatblygu a fydd yn cynnwys archwiliadau rheolaidd a gwiriadau ar hap o lofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa staff, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r templedi dwyieithog cymeradwy a chanllawiau brand corfforaethol. Bydd y dull hwn yn cael ei gefnogi gan aelodau Grŵp Cyngori'r Gymraeg a Rhwydwaith Cymraeg, a fydd yn chwarae rhan weithredol wrth hyrwyddo cydymffurfedd, nodi arfer da, ac amlygu meysydd i'w gwella.

### 8.8 Recriwtio a phenodi (Safonau 106 – 109)

#### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer Safonau 106 – 109.

Mae'n ofynnol i reolwyr lenwi ffurflen Asesiad Iaith Gymraeg ar gyfer pob swydd i benderfynu ar y lefel sgiliau iaith Gymraeg briodol. Mae'r ffurflen hon ynghlwm wrth yr hysbyseb swydd, ac mae'r categori sgiliau gofynnol wedi'i nodi'n glir yn nhestun yr hysbyseb er mwyn sicrhau tryloywder i ymgeiswyr.

Cyhoeddir pob hysbyseb swydd yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda'r gofyniad sgiliau iaith Gymraeg wedi'i nodi'n glir. Fel safon, mae hysbysebion hefyd yn nodi y gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg ac na fydd ceisiadau a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg.

Mae pob ffurflen gais, deunydd canllaw, gwybodaeth am gyfweliadau, a disgrifiadau swyddi ar gael yn Gymraeg a'r Saesneg, gan sicrhau cydraddoldeb a mynediad cyfartal drwy gydol y broses recriwtio. Caiff ymgeiswyr wybod am ganlyniadau'r broses recriwtio ar yr un pryd, ni waeth ym mha iaith y cyflwynwyd eu cais.

Fel rhan o gyflawniadau Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2025/26, cynhaliwyd ymgysylltiad ar draws y sefydliad i sicrhau bod cymwyseddu iaith Gymraeg a gofnodwyd ar y Cofnodion Electronig (ESR) yn gywir ac yn gyfredol. Galluogodd hyn gwblhau dadansoddiad bwlch i sefydlu lefel bresennol sgiliau iaith Gymraeg ar draws meysydd gwasanaeth. Yn dilyn y dadansoddiad hwn, cynhaliwyd ymgysylltu targedig â gwasanaethau blaenoriaeth sydd â chysylltiad uniongyrchol â chleifion a'r cyhoedd. Canolbwyntiodd y gwaith hwn ar ddeall gallu'r gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn timau, nodi'r ddarpariaeth sydd eisoes ar waith, ac amlygu meysydd lle gallai fod angen capasiti ychwanegol neu ddatblygiad pellach.

### Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Mae proses yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cefnogi rheolwyr recriwtio i benderfynu ar y lefel briodol o sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi o fewn yr Ymddiriedolaeth wedi'i diweddaru'n ddiweddar, a bydd yn cael ei gweithredu ar sail beilot o fis Mehefin 2026. Bydd y cyfnod peilot hwn yn ein galluogi i gasglu adborth, asesu effeithiolrwydd y dull diwygiedig, a sicrhau ei fod yn bodloni anghenion gweithredol a gofynion cydymffurfio. Cynhelir adolygiad ffurfiol ym mis Medi, ac ar ôl hynny bydd y broses yn cael ei gweithredu'n llawn ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Yn ogystal, yn ystod 2026/27, bydd Strategaeth Recriwtio Iaith Gymraeg yn cael ei datblygu i ymgorffori gofynion iaith Gymraeg ymhellach ym mhrosesau recriwtio'r Ymddiriedolaeth. Bydd hyn yn cynnwys denu ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg yn weithredol a chefnogi staff presennol i ddatblygu eu sgiliau iaith, gan sicrhau bod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel yn cael eu darparu.

## **8.9 Darparu hyfforddiant (yn y Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau, gweithdrefnau cwynion a disgyblu (Safon 8.9)**

### **Asesiad o sicrwydd**

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd isel ar gyfer safon 98.

Yn ystod 2025/26, cefnogodd Reolwr Gwasanaethau'r Gymraeg allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy roi cyngor a chymorth i staff. Roedd hyn yn cynnwys hwyluso sesiynau hyfforddi iaith Gymraeg, darparu cefnogaeth un i un i uwch arweinwyr ar ddefnyddio ymadroddion Cymraeg priodol wrth gadeirio cyfarfodydd a sut i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd i sicrhau cydymffurfedd â'r Safonau.

### **Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd**

Gan adeiladu ar y cynnydd hwn, bydd camau gweithredu yn 2026/27 yn canolbwyntio ar gryfhau a ffurfioli cyfleoedd hyfforddi. Bydd cydweithio pellach yn cael ei archwilio gyda Thiwtor Sgiliau Hanfodol yr Ymddiriedolaeth i asesu'r potensial ar gyfer cyflwyno sesiynau hyfforddi yn y Gymraeg wedi'u teilwra'n fewnol, wedi'u targedu at rolau ac anghenion gwasanaeth penodol.

Ochr yn ochr â hynny, bydd opsiynau i ymgysylltu â darparwyr hyfforddiant allanol yn cael eu hystyried lle mae angen cyrsiau iaith Gymraeg ychwanegol neu arbenigol. Bydd y dull cyfunol hwn yn helpu i ehangu mynediad at hyfforddiant, gwella hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gweithredol a ffurfiol, a chefnogi nod tymor hwy'r Ymddiriedolaeth o gynyddu'r gallu i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y gweithlu.

8.10 Asesu a chofnodi sgiliau iaith Gymraeg ar draws y gweithlu (Safonau 96 a 116 (Safon Cadw Cofnodion))

Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer Safonau 96 a 116.


O gyfanswm o 4,579 o aelodau staff, mae 4,477 (97.77%) wedi hunanasesu a chofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar y system ESR.

Mae’r sgiliau gwrando/siarad Cymraeg a gofnodwyd ar y system ESR fesul cyfarwyddiaeth (ar 31 Mawrth 2026) fel a ganlyn:

| Cyfarwyddiaeth                        | Angenrheidiol | Wedi'i gyflawni | % Cydymffurfedd |
|---------------------------------------|---------------|-----------------|-----------------|
| Prif Weithredwr                       | 18            | 17              | 94.44%          |
| Llywodraethu Corfforaethol            | 12            | 12              | 100%            |
| Digidol                               | 91            | 91              | 100%            |
| Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol      | 160           | 160             | 100%            |
| Meddygol a Chlinigol                  | 92            | 92              | 100%            |
| Gweithrediadau                        | 3,923         | 3,823           | 97.45%          |
| Partneriaethau ac Ymgysylltu          | 14            | 14              | 100.00%         |
| Pobl a Diwylliant                     | 112           | 112             | 100%            |
| Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf  | 133           | 133             | 100%            |
| Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad | 24            | 23              | 95.83%          |

8.11 Sgiliau iaith Gymraeg y Proffil Staff – Gwrando/Siarad

| 0 - Dim Sgiliau | 1 - Mynediad | 2 - Sylfaen | 3 - Canolradd | 4 - Uwch | 5 - Hyfedredd | Anhysbys | Cyfanswm Terfynol |
|-----------------|--------------|-------------|---------------|----------|---------------|----------|-------------------|
| 2556            | 848          | 293         | 178           | 179      | 423           | 102      | 4,579             |



## Hyfedredd yn y Gymraeg fesul cyfarwyddiaeth

| Cyfarwyddiaeth                        | Canolradd  | Uwch       | Hyfedredd  |
|---------------------------------------|------------|------------|------------|
| Prif Weithredwr                       | 1          | 1          | 0          |
| Llywodraethu Corfforaethol            | 0          | 0          | 2          |
| Digidol                               | 1          | 1          | 9          |
| Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol      | 2          | 8          | 10         |
| Meddygol a Chlinigol                  | 2          | 1          | 9          |
| Gweithrediadau                        | 157        | 159        | 374        |
| Partneriaethau ac Ymgysylltu          | 0          | 2          | 1          |
| Pobl a Diwylliant                     | 5          | 3          | 8          |
| Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf  | 10         | 4          | 9          |
| Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad | 0          | 0          | 1          |
| <b>Cyfanswm Terfynol</b>              | <b>178</b> | <b>179</b> | <b>423</b> |

Ar ddiwedd mis Mawrth 2026, cofnodwyd bod 780 o aelodau staff yn rhugl yn y Gymraeg (o'i gymharu â 740 yn 2024/25). Mae hyn yn cyfateb i 17% o'r rhai sydd wedi cofrestru eu sgiliau Cymraeg (17% yn 2024/25).

Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Er mwyn cynyddu sgiliau Cymraeg gweithlu'r Ymddiriedolaeth yn 2026/27 bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i hyrwyddo'r cwrs Cymraeg sy'n benodol ar gyfer dechreuwyr i'r GIG sydd ar gael i staff yr Ymddiriedolaeth drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ynghyd â chwrs ESR Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg gorfodol yr Ymddiriedolaeth.

8.12 Swyddi newydd a swyddi gwag (Safon Cadw Cofnodion 117)

Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd uchel ar gyfer safon 117.

Mae mynediad gwasanaeth cyfieithu'r Ymddiriedolaeth at feddalwedd cof cyfieithu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd sylweddol wrth sicrhau bod pob swydd-ddisgrifiad yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg. Mae gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl brosesau ar waith i reolwyr recriwtio anfon swydd-ddisgrifiadau cymeradwy at Wasanaeth Cyfieithu mewnol yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r swyddi a hysbysebwyd rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2025 - 31/03/2026 320

| Categori                    | Nifer y swyddi wedi'u categorïddio |         | Canran y swyddi a hysbysebwyd |         |
|-----------------------------|------------------------------------|---------|-------------------------------|---------|
|                             | 2025-26                            | 2024-25 | 2025-26                       | 2024-25 |
| Sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 2                                  | 2       | 0.63%                         | 0.47%   |
| Sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 315                                | 420     | 98%                           | 99%     |

|                                                                                              |   |   |       |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------|---|---|-------|----|
| Disgwylir i ddeiliad y swydd ddysgu'r sgiliau Cymraeg gofynnol ar ôl cael ei benodi i'r post | 1 | 0 | 0.31% | 0% |
| Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol                                                | 2 | 0 | 0.63% | 0% |

Swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn cynnwys:

- Triniwr Galwadau NEPTS - Band 2
- Tiwtor Sgiliau Hanfodol – Band 5

Mae cyfweiliadau swyddi ar gyfer swyddi gwag wedi cael eu hwyluso yn y Gymraeg mewn ymateb i geisiadau gan ymgeiswyr.

### Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dull gweithredu ymhellach drwy ddadansoddi'r data a gofnodwyd er mwyn nodi tueddiadau, patrymau a bylchau yn y broses o ddynodi swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Bydd hyn yn cefnogi dealltwriaeth fwy strategol o anghenion y gweithlu ac yn sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cyd-fynd â'r galw am wasanaethau nawr ac yn y dyfodol.

## 8.13 Hyfforddiant (Safon 97)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd canolog ar gyfer safon 97.

### Ymsefydlu corfforaethol

Mae *Diwrnodau Croeso* yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys elfen ymwybyddiaeth o'r Gymraeg bwrpasol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cwblhaodd cyfanswm o 494 o aelodau staff yr hyfforddiant hwn. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfnod adrodd i gyflwyno'r sesiynau ymsefydlu corfforaethol yn gyfan gwbl yn Gymraeg.

## Cyrsiau ar ESR sydd wedi'u cwblhau gan staff yr Ymddiriedolaeth yn y Gymraeg:

| Cwrs                                                | Wedi'i gwblhau |
|-----------------------------------------------------|----------------|
| Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif                         | 2              |
| Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais | 73             |
| Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Mwy na geiriau)          | 1,026          |

### Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymchwilio i ba gyrsiau ESR a chyrsiau mewnol ychwanegol i'n staff y gellid eu cynnig yn y Gymraeg.

Mae llawlyfr digidol 'Croeso Cynnes WAST' yn elfen ganolog o gyfnod ymsefydlu corfforaethol newydd yr Ymddiriedolaeth, a gynlluniwyd i roi cyflwyniad cyson, cefnogol a hygyrch i'r sefydliad i bob dechreuwr newydd.

Bydd y fformat digidol yn disodli'r dull ymsefydlu corfforaethol presennol a gyflwynir drwy Microsoft Teams, gan ddarparu datrysiad mwy strwythuredig a chynaliadwy; fodd bynnag, ni fydd yn disodli sesiynau ymsefydlu lleol, a fydd yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi staff o fewn eu timau a'u lleoliadau penodol.

Mae'r llawlyfr digidol ar hyn o bryd yn mynd i mewn i'w gyfnod peilot cyn ei lansio arfaethedig ddiwedd mis Mawrth 2026. Yn dilyn y cynllun peilot, bydd gwaith yn dechrau ar y fersiwn Gymraeg i sicrhau bod y llawlyfr yn gwbl ddwyieithog ac yn darparu profiad cynhwysol a hygyrch i'r holl staff.

## 8.14 Hyfforddiant i wella sgiliau iaith Gymraeg (Safonau 99 - 101)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd canolig ar gyfer Safonau 99 -101.



Yn ystod y cyfnod adrodd, cwblhaodd 31 o aelodau staff y cyrsiau iaith Gymraeg newydd a oedd ar gael i staff yn ystod 2025/26 i helpu i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys y Cwrs Croeso, sy'n rhan o strategaeth *Mwy na Geiriau* Llywodraeth Cymru a'r cwrs blasu 10 awr ar y Gymraeg.

### Cwrs Cymraeg i ddechreuwyd ar gyfer staff EMS

Ym mis Medi 2025, lansiodd yr Ymddiriedolaeth gwrs dysgu Cymraeg peilot ar gyfer Parafeddygon a Thechnegwyr Ymateb Brys, "*Y Gymraeg mewn Argyfwng: Cymraeg Hanfodol ar gyfer Parafeddygon*." Cynhaliwyd y cwrs mynediad 10 wythnos hwn ar-lein drwy Microsoft Teams gan Diwtor Cymraeg Gwaith, a chafodd ei hyrwyddo drwy Dîm Dysgu a Datblygu'r Ymddiriedolaeth. Cwblhaodd wyth aelod o staff EMS y cwrs, a oedd â'r nod o helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn ymarferol i feithrin perthynas â chleifion o'r cyswllt cyntaf hyd at drosglwyddo i'r ysbyty.

Amlygwyd effaith y cwrs pan lwyddodd parafeddyg i ddefnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu â chlaf oedrannus â dementia a oedd yn siarad Cymraeg yn unig, gan roi sicrwydd a chysur iddo. Ymatebodd y claf a'i theulu'n gadarnhaol i hyn, gan amlygu gwerth yr hyfforddiant o ran gwella profiad y claf.



## Defnyddia dy Gymraeg Use your Welsh

**Y Gymraeg mewn argyfwng: Cymraeg Hanfodol ar gyfer Parafeddygon/EMT/EAP**  
**Welsh in an Emergency: Essential Welsh for Paramedics/EMT/EAP**

**24.09.25 – 26.11.25**

- Dydd Mercher: 9am – 10am
- 10 wythnos (1 awr yr wythnos)
- Lefel: Mynediad / Dechreuwyd
- Cwrs o dan arweiniad tiwtor dros Teams sydd wedi'i deilwra ar gyfer EMS sydd eisiau cyfathrebu gyda chleifion mewn Cymraeg sylfaenol er mwyn meithrin perthynas o'r cyswllt cyntaf hyd at drosglwyddo i'r ysbyty.
- Byddwn yn ymdrin â:
  - Sgyrsiau sylfaenol a chyflwyniadau
  - Dod i adnabod y claf (anfeddygol)
  - Gerchmynion
  - Cyflwyno yn y trydydd person
  - Delio â gwahanol senario
  - Rhannau o'r corff
- Ar gael i 12 o ddysgwyr

**24.09.25 – 26.11.25**

- Wednesday: 9am – 10am
- 10 weeks (1 hour per week)
- Lefel: Entry / Beginner
- A tailor-made tutor led course on Teams for EMS who want to be able to engage with patients in basic Welsh to build rapport with patients from the first point of contact until handover at a hospital.
- We will cover:
  - Basic conversation and introduction.
  - Getting to know the patient (non-medical)
  - Commands
  - Introducing in the third person
  - Dealing with different scenarios
  - Body parts
- Availability for 12 learners

O'r hoflechi fwy o wybodaeth am y Gymraeg cysylltwch â Thîm y Gymraeg  
For further information about the Welsh language contact the Welsh Language Team at:  
[amib\\_cymraeg@wales.nhs.uk](mailto:amib_cymraeg@wales.nhs.uk)

### Cefnogi staff EMS yr Ymddiriedolaeth

Mae set o gardiau annog Cymraeg wedi'u datblygu i gefnogi staff EMS i gychwyn cyfathrebu clir ac effeithiol â chleifion sy'n siarad Cymraeg ar y pwynt cyswllt cyntaf. Mae'r cardiau annog hyn wedi'u cynllunio i feithrin hyder, cefnogi cysur cleifion, a helpu i sicrhau bod anghenion iaith yn cael eu nodi a'u parchu o ddechrau'r gofal.




**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG  
Gwasanaethau Ambwlans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
University NHS Trust



## DEFNYDDIA DY GYMRAEG

## USE YOUR WELSH

**Eisiau datblygu eich sgiliau Cymraeg? Ewch i Hwb yr Iaith Gymraeg am y cyfleoedd diweddaraf**

**Want to learn some Welsh? Visit the Welsh Language Hwb for the Latest opportunities**

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y Gymraeg cysylltwch â Thîm y Gymraeg  
For further information about the Welsh language contact the Welsh Language Team at:  
amb\_Cymraeg@wales.nhs.uk




**GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES**

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG  
Gwasanaethau Ambwlans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
University NHS Trust





|                                      |                           |                                     |                              |
|--------------------------------------|---------------------------|-------------------------------------|------------------------------|
| <b>Su'mae</b><br>Shwmae<br>Hello     | <b>s'm aye</b><br>shoo-my | <b>Noswaith dda</b><br>Good evening | <b>noss-why-th-ddar</b>      |
| <b>Sut dach chi?</b><br>How are you? | <b>seat da-ch chee</b>    | <b>Croeso</b><br>Welcome            | <b>croy-soh</b>              |
| <b>Da iawn</b><br>Very Good          | <b>dah ee-awn</b>         | <b>Os gwelwch yn dda</b><br>Please  | <b>oss-gwell-ooch-un-tha</b> |
| <b>Bore da</b><br>Good morning       | <b>bo-reh-dah</b>         | <b>Diolch</b><br>Thank you          | <b>dee-olch</b>              |
| <b>P'nawn da</b><br>Good afternoon   | <b>p-noun dah</b>         | <b>Hwyl</b><br>Bye                  | <b>hoyl</b>                  |

## Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Yn ystod 2026/27, byddwn yn canolbwyntio ar ehangu cyfleoedd i staff ymgysylltu â'r Gymraeg drwy gynyddu'r ddarpariaeth o Gyrsiau Croeso a rhaglenni meithrin hyder drwy'r cwrs Dysgu Cymraeg. Bydd y cyrsiau hyn wedi'u hanelu at unigolion sydd ar

ddechrau eu taith iaith, gan eu cefnogi i ddatblygu sgiliau sylfaenol, meithrin hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac annog mwy o ddefnydd o'r iaith o ddydd i ddydd ar draws gwasanaethau.

## 8.15 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Safonau 102 – 103)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd canolog ar gyfer Safonau 102-103.

Ers cyflwyno'r cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gorfodol ar 1 Ebrill 2023, roedd 79.30% o staff wedi cwblhau hyfforddiant hyd at 31 Mawrth 2026 o'i gymharu â 70% yn 2024/25.

### Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i hyrwyddo'r cwrs yn weithredol dros y flwyddyn nesaf i gynyddu cyfraddau cwblhau a chyflawni lefel cydymffurfedd o leiaf 90%. Bydd camau gweithredu i gefnogi hyn yn cynnwys cyfathrebu wedi'i dargedu at staff rhagorol, adrodd cydymffurfedd i reolwyr yn rheolaidd, atgyfnerthu gofynion hyfforddi trwy brosesau sefydlu ac adnewyddu, a mwy o oruchwyliaeth reoli i gefnogi cwblhau amserol.

## 8.15 Hyrwyddo'r Gymraeg

Yn ystod y cyfnod adrodd, hyrwyddwyd y Gymraeg yn weithredol drwy ddigwyddiadau cenedlaethol a diwylliannol allweddol, gan gynnwys Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Miwsig Cymru. Hyrwyddwyd y dathliadau hyn ar draws y rhwydwaith staff Cymraeg, *Rhwyd-iaith*, gan helpu i gynyddu ymgysylltiad, codi ymwybyddiaeth, ac annog cyfranogiad ymhlith staff wrth ddathlu'r Gymraeg a'r diwylliant o fewn yr Ymddiriedolaeth.

Yn ogystal, datblygodd Tîm y Gymraeg yr Ymddiriedolaeth gyfres o fideos YouTube ar sgiliau cwrteisi Cymraeg, a gafodd eu hyrwyddo i staff drwy safle SharePoint yr Ymddiriedolaeth. Mae'r adnoddau hyn yn cefnogi staff i feithrin hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod rhyngweithiadau bob dydd ac yn atgyfnerthu ymhellach ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i normaleiddio ac annog defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

## 8.16 Cynllun Ymgynghori Clinigol (Safon 110)

### Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd isel ar gyfer safon 110.

Roedd datblygu cynllun ymgynghori clinigol pum mlynedd diwygiedig yn un o brif dargedau i'w cyflawni yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2025/26. Arweiniodd cyflwyno model clinigol newydd yr Ymddiriedolaeth yn ddiweddar, gyda cham 1 wedi'i weithredu ar 1 Gorffennaf 2025 a cham 2 wedi'i drefnu ar gyfer 1 Rhagfyr 2025, at benderfyniad i ohirio datblygiad y cynllun er mwyn sicrhau ystyriaeth briodol o'r newidiadau.

Uchelgais y cynllun 2026-2031 yw cynnal ffocws cryf ar drinwyr galwadau GIG 111 Cymru, gan wreiddio clinigwyr 111/RICS a'r cynnig digidol 111 hefyd. Mae ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ddiwedd 2025 wedi arwain at newid yn safbwynt y Comisiynydd mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth, gan gydnabod bod cynyddu'r cynnig gweithredol yn fwy tebygol o gael ei gyflawni drwy drinwyr galwadau a'r cynnig digidol.


### Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

I gwblhau cynllun 2026-2031, mae Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu hystyried gan fforymau ansawdd a chlinigol yr Ymddiriedolaeth cyn symud y ddogfen yn ei blaen drwy'r broses gymeradwyo ffurfiol. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

## 8.17 Ein Gwasanaeth Cyfieithu

Ers sefydlu Gwasanaeth Cyfieithu'r Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2023, mae wedi mynd o nerth i nerth ac mae'n alluogwr allweddol wrth sicrhau cydymffurfedd â llawer o'r Safonau e.e. gohebiaeth, dogfennau, ffurflenni, arwyddion, cyfryngau cymdeithasol a chynnwys gwe.

Mae'r graff isod yn dangos y cynnydd yn y galw am nifer y geiriau a gyfieithwyd gan y gwasanaeth cyfieithu ynghyd â'r gostyngiad yn y defnydd o ddarparwyr gwasanaethau cyfieithu allanol.



Mae'r data yn y graff uchod yn cymharu ail a thrydedd flwyddyn lawn o weithredu'r Gwasanaeth Cyfieithu ac yn dangos bod gweithgarwch yn gyson uwch ym Mlwyddyn 2, gyda chynnydd nodedig ym misoedd Ebrill, Mai a Medi o ganlyniad i gyfieithu adroddiadau blynyddol. Mae Blwyddyn 3 yn dangos cyfrif geiriau misol is ond mwy cyson, gan ddilyn patrymau tymhorol tebyg iawn gyda chyfnodau tawelach tua diwedd y flwyddyn. At ei gilydd, mae'r gymhariaeth yn amlygu sut mae'r galw wedi sefydlogi wrth i'r gwasanaeth aeddfedu dros ei ddwy flynedd gyntaf.

9. Cwynion (Safon Cadw Cofnodion 115)

Asesiad o sicrwydd

Canlyniad hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth oedd lefel sicrwydd ganolig ar gyfer safon 115 wrth gofnodi nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â chydymffurfedd â'r Safonau.

Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniwyd un gŵyn drwy Gomisiynydd y Gymraeg. Oherwydd nad oedd digon o wybodaeth wedi'i darparu gan y Comisiynydd, nid oedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu ymchwilio'n llawn i'r pryder na'i symud ymlaen, ac fe gaewyd y gŵyn wedi hynny.

Mae pob cwyn a dderbynnir gan neu drwy Gomisiynydd y Gymraeg yn cael ei chofnodi ar Datix. Yn ogystal, mae traciwr pwrpasol ar gyfer cwynion wedi'i ddatblygu i gofnodi, monitro a goruchwyllo'r broses o drin pryderon yn amserol ac yn effeithiol, gan sicrhau eu bod yn cael sylw mor brydlon, priodol a chyson â phosibl.

### Camau gweithredu pellach a gynlluniwyd

Fel y nodwyd yn adran 5.5, mae camau gweithredu ar y gweill i weithredu dull cyson o gasglu ac adrodd ar bob cwyn, gan gynnwys y rhai a ddatryswyd yn lleol, drwy Datix.

## 10. Edrych ymlaen - blaenoriaethau ar gyfer 2026-2027

Mae'r camau gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 2026/27 wedi'u manylu drwy gydol yr adroddiad blynyddol hwn.

Bydd datblygu'r gweithlu yn alluogwr allweddol yn ystod 2026/27, gyda ffocws penodol ar ddatblygu Strategaeth Recriwtio Iaith Gymraeg i gefnogi denu, cadw a defnyddio staff sy'n siarad Cymraeg yn effeithiol ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cwblhau ac yn cyhoeddi ei Chynllun Ymgynghori Clinigol 5 mlynedd (2026–2031), yn unol â Safon y Gymraeg 110.

Bwriedir cynnal ymarfer cwsmer cudd ar gyfer gwasanaethau dwyieithog yn ystod 2026/27 er mwyn darparu asesiad annibynnol a gwrthrychol o gydymffurfedd yr Ymddiriedolaeth â'r Safonau sy'n ymwneud â gohebiaeth.

## Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â:

Melfyn Hughes

Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Tŷ Elwy

Ffordd Richard Davies

Llanelwy

Sir Ddinbych

LL17 0LJ

E-bost: [Melfyn.hughes@wales.nhs.uk](mailto:Melfyn.hughes@wales.nhs.uk)